**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**—**

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Dyddiad | Date: 6 Rhagfyr 2021

Pwnc | Subject: **Recriwtio ar gyfer swydd Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru**

Annwyl Dawn,

Clywodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol gan sefydliadau celfyddydol am yr heriau y maent yn eu hwynebu yn ein cyfarfod ar 24 Tachwedd.

Yn ystod y cyfarfod, dywedodd y cynrychiolwyr wrth y Pwyllgor am yr anawsterau parhaus y maent yn eu hwynebu yn sgil effeithiau pandemig COVID-19 a'r effaith y mae wedi'i chael ar eu hincwm masnachol. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ('Cyngor y Celfyddydau') am ei gynlluniau i ailgychwyn yr adolygiad buddsoddi a ohiriwyd ac ystyried argymhellion yr adroddiadau ehangu ymgysylltiad.

Yn amlwg, mae Cyngor y Celfyddydau yn wynebu heriau sylweddol wrth gyflawni ei fusnes craidd a chwrdd â'r galw am gymorth gan sefydliadau celfyddydol ar adeg pan mae swydd y Prif Weithredwr yn parhau i fod yn wag, ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysau sydd arnynt a pha mor galed y maent yn gweithio. Mae'n ddealladwy nad yw'n hawdd recriwtio'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd pan fo rheoliadau COVID-19 yn golygu bod cyfarfod mewn person yn gyfyngedig. Wedi dweud hynny, mae'r sefyllfa'n dyngedfennol i sefydliadau sy'n aros am arian, ac mae'r brys i ddarparu arweinyddiaeth yn cynyddu bob dydd. A allwch chi nodi pa gymorth rydych chi wedi'i ddarparu i Gyngor y Celfyddydau i'w helpu i recriwtio Prif Weithredwr newydd, boed yn gymorth ariannol neu'n gymorth fel arall?

A allech chi hefyd amlinellu sut mae'ch swyddogion wedi bod yn cynorthwyo'r tîm arwain yn ystod y cyfnod heb Brif Weithredwr? Er enghraifft, a yw'ch swyddogion wedi rhoi cyngor ar recriwtio o'r hyn a ddysgwyd mewn ymarferion tebyg, neu wedi argymell eu bod yn cyflogi ymgynghorydd recriwtio masnachol?

Dim ond pan fydd y cyfnod tawel mewn gweithgarwch rhyngwladol o ganlyniad i'r pandemig yn dod i ben y byddwn yn teimlo effaith lawn Brexit. Mae'n bwysig bod Cyngor y Celfyddydau mewn sefyllfa gref i gefnogi busnesau i ddatblygu perthnasoedd rhyngwladol. Er mwyn cyflymu'r broses recriwtio, a ydych chi wedi gosod dyddiad cau i Gyngor y Celfyddydau ar gyfer llenwi swydd wag y Prif Weithredwr?

Mae'r angen i gefnogi'r sector i oresgyn effaith y pandemig ac, yn benodol, yr angen i ddenu gweithwyr llawrydd yn ôl i'r diwydiant yn dilyn ansefydlogrwydd eu bywoliaeth yn golygu y bydd y pwysau i ddosbarthu cymorth ariannol yn parhau i fod yn uchel. Os bydd rownd arall o gyllid Adferiad Diwylliannol, neu gymorth tebyg i'r sector, a ydych chi'n credu bod gan Gyngor y Celfyddydau y capasiti i reoli hyn heb gymorth ychwanegol?

Byddwn yn ddiolchgar o wybod sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon gan ei bod yn cael effaith real iawn ar y rhai sy'n ei chael yn anodd yn ariannol ac sy'n edrych at Gyngor y Celfyddydau am gymorth. Oni bai bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, mae risg na fydd unigolion talentog a lleoliadau diwylliannol poblogaidd yn rhan o fywyd diwylliannol Cymru yn y dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Phil George, Cadeirydd Cyngor y Celfyddydau. O ystyried natur amser sensitif y cwestiynau hyn, byddwn yn ddiolchgar am ateb i'r llythyr hwn cyn y Nadolig.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**

**Cadeirydd**

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.**